Adroddiad wythnosol o roddion a thrafodion a reoleiddir gan blaid wleidyddol gofrestredig (PF)

Mae'n rhaid i drysorydd y blaid lofnodi a chyflwyno ffurflen wythnosol wedi'i llofnodi.

Gallwch gwblhau a chyflwyno eich ffurflen drwy ddefnyddio CPE Ar-lein, ein system cronfa ddata ar-lein. Mae hyn yn golygu y gallwch adolygu eich ffurflen ar unrhyw adeg cyn ei chyflwyno ac mae cymorth ar gael os byddwch ei angen. Byddwch angen cyfrif defnyddiwr i wneud hyn.

Fel arall, gallwch lenwi eich ffurflen wythnosol drwy ddefnyddio'r ffurflen hon a'i chyflwyno drwy'r post.

Os ydych yn defnyddio fersiwn hŷn o Adobe Reader, efallai na fyddwch yn gallu arbed y ffurflen sydd wedi'i chwblhau. Rydym yn awgrymu eich bod yn lawrlwytho a gosod y fersiwn newydd o Adobe i ddefnyddio'r ffurflen hon.

I bwy mae'r ffurflen hon:

Pleidiau gwleidyddol sydd wedi'u cofrestru ym Mhrydain Fawr:

- sydd yn ymladd etholiad cyffredinol Senedd y DU yn 2024/2025; neu
- sydd ddim yn ymladd etholiad cyffredinol Senedd y DU yn 2024/2025 ac sydd heb gyflwyno datganiad eithrio

Os nad ydych wedi derbyn unrhyw roddion nac ymgymryd ag unrhyw drafodion a reoleiddir, rhaid i chi gwblhau datganiad ffurflen 'dim' a geir yma.

Mae ffurflen ar wahân i Ogledd Iwerddon. Ceir datganiad nad yw eich plaid yn ymladd etholiad cyffredinol Senedd y DU yma.

Byddwch yn gwneud datganiad pan fyddwch yn llofnodi'r ffurflen hon. Mae'n drosedd gwneud datganiadw ffug gan wybod hynny neu'n ddi hid.

Beth yw rhodd?

Rhodd yw arian, nwyddau neu wasanaethau a roddir i blaid heb godi tâl neu ar delerau anfasnachol, gyda gwerth o dros £500. Rhaid adrodd rhoddion dros £11,180.

Mae'n rhaid i chi adrodd rhodd yr ydych yn ei gael yn y cyfnod adrodd perthnasol hyd yn oed os nad ydych wedi gwirio a ganiateir y rhodd.

Beth yw trafodion a reoleiddir adroddadwy?

Trafodion a reoleiddir yw benthyciad, cyfleuster credyd neu drafodyn cysylltiedig gyda gwerth o fwy na £500. Mae'n rhaid adrodd trafodion dros £11,180.

Benthyciad

Unrhyw fenthyciad sydd werth mwy na £11,180 a wneir gan bencadlys y blaid lle mae pob cyfranogwr yn fenthycwyr a ganiateir.

Cyfleuster credyd

Unrhyw gyfleuster credyd sydd werth mwy na £11,180, fel gorddrafft banc neu gerdyn credyd.

Trafodion cysylltiedig

Sicrwydd neu warant am rwymedigaethau'r blaid i rywun arall gyda gwerth o fwy na £11,180.

Amserlen adrodd wythnosol

Mae'n rhaid i chi gyflwyno ffurflen wythnosol o roddion a thrafodion a reoleiddir unwaith y diddymir y Senedd.

Mae'n rhaid i chi gyflwyno'r ffurflen o fewn 7 diwrnod o ddiwedd yr wythnos berthnasol.

Byddwn yn diweddaru ein canllawiau gyda'r cyfnodau adrodd a'r dyddiadau cau ar gyfer adrodd unwaith y cyhoeddir yr etholiad.

Nodiadau esboniadol

Adran 1 Manylion plaid gofrestredig

Nodwch enw, cyfeirnod y blaid a dyddiadau'r cyfnod y mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef.

Adran 2 a 3 Datganiad ynghylch rhoddion, trafodion a reoleiddir, datganiad a llofnod

Atebwch bob cwestiwn ac yna ewch at yr adran berthnasol pan fyddwch wedi ateb pob cwestiwn a chwblhau'r datganiad.

Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid.

Mae'n rhaid i'r datganiad gael ei lofnodi gan y person a gofrestrwyd fel trysorydd y blaid.

Adran 4 Rhoddion a Gafwyd

Mae'n rhaid i chi ddatgan pob rhodd a gafwyd sydd werth mwy na £11,180 yn ystod y cyfnod adrodd perthnasol, hyd yn oed os ydych wedyn yn ei dychwelyd am ei bod yn rhodd na chaniateir.

Rhowch yr wybodaeth a restrir isod ar gyfer pob rhodd.

Manylion y rhoddwr

Enw a chyfeiriad llawn

Rhowch enw a chyfeiriad llawn y rhoddwr. Os oes gan y rhoddwr gyfeiriad dienw ar y gofrestr etholiadol, nodwch hynny yma.

Am ragor o wybodaeth ynghylch rhoddwyr a ganiateir, gweler:

- Rhoddion i bleidiau gwleidyddol

Statws a rhif cwmni

Nodwch statws pob rhoddwr, o un o'r categorïau isod - os yn gwmni cofrestredig, dylech gynnwys rhif cofrestru'r cwmni a

chyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni fel y'i cofnodwyd ar gofrestr Tŷ'r Cwmnïau.

- unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar gofrestr etholiadol yn y DU, gan gynnwys etholwyr tramor a'r rheiny sy'n gadael cymynroddion
- cwmni wedi'i gofrestru yn y DU sydd wedi ei ymgorffori o fewn y DUac sy'n cynnal busnes yn y DU
- plaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru ym Mhrydain Fawr
- undeb llafur sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig wedi'i chofrestru yn y DU (LLP) sy'n cynnal busnes yn y DU
- cymdeithas gyfeillgar neu gymdeithas ddiwydiannol a darbodus sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas sy'n anghorfforedig yn y DU sydd wedi'i lleoli ac sy'n cynnal busnes neu weithgareddau eraill yn y DU

Os nad ydych wedi gwneud penderfyniad ynghylch p'un a yw'r rhodd yn un a ganiateir, rhowch 'anhysbys'. Os ydych wedi penderfynu nad yw'r rhodd yn un a ganiateir, rhowch 'ni chaniateir'.

Dyddiad y cafwyd y rhodd

Nodwch y dyddiad y cawsoch y rhodd.

Gwerth

Os mai rhodd ariannol oedd, nodwch faint a gafwyd mewn arian parod, siec, ayb. Os nad oedd y rhodd yn ariannol, rhowch fanylion ynghylch gwerth y nwyddau neu wasanaethau a ddarparwyd i chi.

Natur rhodd nad yw'n ariannol

Os nad oedd y rhodd yn ariannol, rhowch ddisgrifiad o'r nwyddau a gwasanaethau a gafwyd.

Gwybodaeth arall

Nodwch yn y blwch p'un a oedd y rhodd ar ffurf nawdd neu gymynrodd. Os oes gan y rhoddwr gofnod dienw ar y gofrestr, nodwch yma eich bod wedi gweld y dystiolaeth ragnodedig.

Adran 5 Benthyciadau newydd

Mae'n rhaid i chi ddatgan pob benthyciad newydd dros £11,180 a gafwyd yn ystod y cyfnod adrodd perthnasol.

Rhowch yr wybodaeth a restrir isod ar gyfer yr holl drafodion.

Manylion y benthyciad

Cyfeirnod
Rhowch gyfeirnod y benthyciad.

Enw a chyfeiriad llawn
Rhowch enw a chyfeiriad llawn y benthyciwr. Os oes gan y benthyciwr gyfeiriad dienw ar y gofrestr etholiadol, nodwch hynny yma.

Am ragor o wybodaeth ynghylch rhoddwyr a ganiateir, gweler:
- Rhoddion i bleidiau gwleidyddol

Statws a rhif cwmni
Nodwch statws pob benthyciwr, o un o'r categorïau isod - os yn gwmni cofrestredig, dylech gynnwys rhif cofrestru'r cwmni a chyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni fel y'i cofnodwyd ar gofrestr Tŷ'r Cwmnïau.

- unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar gofrestr etholiadol yn y DU, gan gynnwys etholwyr tramor a'r rheiny sy'n gadael cymynroddion
- cwmni wedi'i gofrestru yn y DU sydd wedi ei ymgorffori o fewn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- plaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru ym Mhrydain Fawr
- undeb llafur sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig wedi'i chofrestru yn y DU (LLP) sy'n cynnal busnes yn y DU
- cymdeithas gyfeillgar neu gymdeithas ddiwydiannol a ddarbodus sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig y DU sydd wedi'i lleoli ac sy'n cynnal busnes neu weithgareddau eraill yn y DU

Dyddiad ymgymryd
Nodwch y dyddiad yr ymgymerwyd â'r trafodion.

Dyddiad y mae'n ad-daladwy
Nodwch y dyddiad pryd mae'r benthyciad yn ad-daladwy neu p'un a yw'n amhenodol neu'n ad-daladwy trwy gytundeb.

Gwerth
Nodwch faint neu werth y benthyciad.

Cyfradd llog
Nodwch y gyfradd llog.

Gwybodaeth arall
Defnyddiwch y blwch hwn i ddweud wrthym am unrhyw beth pwysig arall, fel:

- os oes unrhyw sicrwydd ar gyfer y benthyciad
- p'un a ellir ychwanegu llog at y benthyciad
- os oes gan y rhoddwr gofnod dienw ar y gofrestr, nodwch yma eich bod wedi gweld y dystiolaeth ragnodedig.

Adran 6 Cyfleusterau credyd newydd

Mae'n rhaid i chi ddatgan bob cyfleuster credyd newydd dros £11,180 ar gyfer y cyfnod adrodd perthnasol.

Rhowch yr wybodaeth isod ar gyfer yr holl drafodion.

Manylion y cyfleuster credyd

Cyfeirnod
Rhowch gyfeirnod y cyfleuster credyd.

Enw a chyfeiriad llawn
Rhowch enw a chyfeiriad llawn y benthyciwr. Os oes gan y benthyciwr gyfeiriad dienw ar y gofrestr etholiadol, nodwch hynny yma.

Statws a rhif cwmni
Nodwch statws pob benthyciwr, o un o'r categorïau isod - os yn gwmni cofrestredig, dylech gynnwys rhif cofrestru'r cwmni a chyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni fel y'i cofnodwyd ar gofrestr Tŷ'r Cwmnïau.

- unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar gofrestr etholiadol yn y DU, gan gynnwys etholwyr tramor a'r rheiny sy'n gadael cymynroddion

Am ragor o wybodaeth ynghylch rhoddwyr a ganiateir, gweler:
- Rhoddion i bleidiau gwleidyddol

- cwmni wedi'i gofrestru yn y DU sydd wedi ei ymgorffori o fewn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- plaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru ym Mhrydain Fawr
- undeb llafur sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig (PAC) sydd wedi'i chofrestru yn y DU sy'n cynnal busnes yn y DU
- cymdeithas gyfeillgar neu gymdeithas ddiwydiannol a ddarbodus sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig y DU sydd wedi'i lleoli ac sy'n cynnal busnes neu weithgareddau eraill yn y DU

Dyddiad ymgymryd
Nodwch y dyddiad y darparwyd y cyfleuster i chi.

Dyddiad diwedd y cyfleuster
Nodwch y dyddiad y bydd y cyfleuster credyd yn dod i ben.

Gwerth
Nodwch faint neu werth y cyfleuster credyd.

Cyfradd llog
Nodwch y gyfradd llog.

Gwybodaeth arall
Defnyddiwch y blwch hwn i ddweud wrthym am unrhyw beth pwysig arall, fel:

- os oes unrhyw sicrwydd ar gyfer y cyfleuster credyd
- p'un a ellir ychwanegu llog at y cyfleuster
- os oes gan y rhoddwr gofnod dienw ar y gofrestr, nodwch yma eich bod wedi gweld y dystiolaeth ragnodedig.

Adran 7 Manylion trafodion cysylltiedig

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym am unrhyw drafodion cysylltiedig dros £11,180 yn ystod y cyfnod wythnosol perthnasol.

Rhowch yr wybodaeth isod ar gyfer yr holl drafodion.

Manylion y trafodion cysylltiedig

Cyfeirnod
Rhowch gyfeirnod y trafodion.

Enw a chyfeiriad llawn
Rhowch enw a chyfeiriad llawn y gwarantwr.

Am ragor o wybodaeth ynghylch rhoddwyr a ganiateir, gweler:
- Rhoddion i bleidiau gwleidyddol

Statws y benthyciwr
Nodwch statws bod gwarantwr, o un o'r categorïau isod - os yn gwmni cofrestredig, dylech gynnwys rhif cofrestru'r cwmni a chyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni fel y'i cofnodwyd ar gofrestr Tŷ'r Cwmnïau.

- unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar gofrestr etholiadol yn y DU, gan gynnwys etholwyr tramor a'r rheiny sy'n gadael cymynroddion
- cwmni wedi'i gofrestru yn y DU sydd wedi ei ymgorffori o fewn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- plaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru ym Mhrydain Fawr
- undeb llafur sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig wedi'i chofrestru yn y DU (LLP) sy'n cynnal busnes yn y DU
- cymdeithas gyfeillgar neu gymdeithas ddiwydiannol a ddarbodus sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig y DU sydd wedi'i lleoli ac sy'n cynnal busnes neu weithgareddau eraill yn y DU

Dyddiad ymgymryd
Nodwch y dyddiad yr ymgymerwyd â'r trafodion.

Gwerth
Nodwch faint neu werth y trafodion.

Prif nodweddion y trafodion
Disgrifiwch y trafodion yn fyr, gan gynnwys os fydd y gwarantwr yn derbyn unrhyw gydnabyddiaeth gan y blaid.

Adran 8 Newidiadau i drafodion cysylltiedig yr adroddwyd arnynt yn flaenorol

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym am unrhyw newidiadau i drafodion cysylltiedig yr adroddwyd arnynt yn flaenorol. Dylech ddweud wrthym am:

- Unrhyw newidiadau i fanylion y benthyciwr
- Os oes benthyciwr newydd yn rhan o'r trafodion cysylltiedig
- Amrywiadau i'r trafodion cysylltiedig
- Unrhyw newidiadau adroddadwy eraill

Os na fu unrhyw newidiadau i drafodion cysylltiedig yr adroddwyd arnynt, nodwch hynny ar y ffurflen.

Cwblhau ac anfon y ffurflen atom

Mae'n rhaid i drysorydd y blaid anfon y ffurflen wythnosol atom erbyn y dyddiad cau perthnasol a nodir ar yr amserlen uchod.

Gallech gael eich cosbi os nad ydych yn cyflwyno eich adroddiadau ar amser.

Cyflwyno'r ffurflenni ar-lein

Rydym yn eich annog i gwblhau eich ffurflenni a datganiadau drwy ddefnyddio CPE Ar-lein, ein system gronfa ddata ar-lein. Ceir canllawiau yma ar sut i sefydlu cyfrif CPE Ar-lein.

Cyflwyno eich ffurflen drwy e-bost neu drwy'r post

Os nad ydych yn cyflwyno eich ffurflen ar-lein, gallwch ei hanfon atom drwy'r post i:

Compliance and Transparency Team
The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London
EC1Y 8YZ

Petaech yn cael unrhyw broblemau wrth gyflwyno eich ffurflen, gallwch gysylltu â ni dros y ffôn ar 0333 103 1929 neu anfon e-bost i pef@electoralcommission.org.uk